# 4.0 PENRHYN LLŶN - LLE ARBENNIG!

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Penrhyn Llŷn oedd un o'r ardaloedd cyntaf trwy Brydain i gael ei dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a hynny yn 1956. Hyd yma dim ond 5 AHNE sydd yng Nghymru, y rhai eraill yw Ynys Môn, Bryniau Clwyd, Penrhyn Gŵyr a Dyffryn Gwy.

4.1.2 Prif sail dynodi rhan o'r ardal fel AHNE yn 1956 oedd harddwch y tirlun a'r arfordir, y golygfeydd gwych a natur di-ddatblygiad yr ardal. Mae'r nodweddion yma yn parhau i wneud yr ardal yn arbennig ond at bwrpas y Cynllun Rheoli mae'n bwysig ceisio gwneud dadansoddid mwy manwl o arbenigrwydd yr ardal a diffinio ei holl rinweddau.

4.1.3 Wrth sôn am "rinweddau" be sydd dan sylw ydi nodwedd neu elfen o gymeriad yr ardal sydd arbennig, unigryw neu yn "werthfawr". Ar ôl adnabod a diffinio'r rhinweddau arbennig gellir symud ymlaen i fesur maint a chyflwr y rhinweddau yma (a'r adnoddau sy'n rhan ohonynt) gan gynnwys mesur pa newidiadau sydd wedi digwydd tros amser ac yn parhau i ddigwydd.

4.1.4 Bydd rhai o rinweddau yr ardal yn parhau yn weddol ddi-newid megis y tirlun hardd a'r arfordir amrywiol am eu bod yn seiliedig ar ddaeareg a llystyfiant yr ardal. Ond rhai o'r rhinweddau wedi dirywio, er enghraifft cynefinoedd, bywyd gwyllt ac adeiladau hanesyddol.

4.1.5 Mae llu o ddynodiadau o ran cadwraeth wedi eu gwneud ar wahanol rannau o ardal Llŷn. Mae'r rhain yn cydnabod gwerth uchel y tirlun, arfordir, daeareg, bywyd gwyllt a chynefinoedd, olion ac adeiladau hanesyddol. Mae mwy o wybodaeth am y dynodiadau hyn wedi ei gynnwys yn yr asesiad o gyflwr yr ardal. Yr haen uchaf a phwysicaf o ddynodiadau yw rhai Ewropeaidd megis y Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar. Yn dilyn hyn mae dynodiadau Cenedlaethol, yna dynodiadau rhanbarthol a dynodiadau lleol. Mae'r dynodiadau allweddol yn rhai sydd yn seiliedig ar ddeddf (statudol) tra mae dynodiadau mwy lleol neu ranbarthol yn rhai anstatudol.

## 4.2 Y Rhinweddau Arbennig

4.2.1 Rhoddwyd gryn sylw i adnabod a diffinio rhinweddau arbennig yr ardal yn y Cynllun Rheoli gwreiddiol ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau i fod yn berthnasol. Roedd y gwaith yn cynnwys ystyried gwahanol ffynonellau o wybodaeth a barn pobol leol ac ymwelwyr. Yn fras dyma oedd y prif ffynonellau a ystyriwyd:

- Dynodiadau cadwriaethol;
- Asesiad Tirlun LANDMAP;

- Barn broffesiynol gwahanol swyddogion ac arbenigwyr;
- Barn gyhoeddus (pobol leol ac ymwelwyr);
- Llenyddiaeth a barddoniaeth.

4.2.2 Ar sail y gwaith yma casglwyd fod nifer o rinweddau yn berthnasol i Lŷn gyda chyfres o nodweddion yn cyfrannu at greu pob rhinwedd penodol. Er enghraifft, os mai harddwch y tirlun yw'r rhinwedd mae'r nodweddion sydd yn cyfrannu at hynny yn cynnwys y ddaeareg, llystyfiant, cloddiau ayb.

4.2.3 Wrth ddod i gasgliadau ynglŷn â'r rhinweddau at bwrpas y Cynllun fe geisiwyd fod yn benodol a chlir o ran AHNE Llŷn yn hytrach na chynnwys penawdau eang fyddai yn medru bod yn berthnasol i unrhyw ardal. At bwrpas y Cynllun Rheoli hwn felly dyma a ddiffiniwyd rhinweddau arbennig AHNE Llŷn:

- Tirlun ac Arfordir
- Amgylchedd glân a thawelwch
- Cyfoeth o fywyd gwyllt
- Yr Amgylchedd hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant lleol
- Pobol a chymunedau clos
- Cynnyrch lleol a busnesau gwledig
- Hawliau tramwy a mynediad

4.2.4 I ddilyn fe geir braslun o rinweddau yr ardal yn ôl y categorïau uchod gyda rhai lluniau i geisio dangos pam fod y nodweddion hyn yn arbennig. Ceir mwy o wybodaeth a ffeithiau am adnoddau'r AHNE yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE.

## 4.3 Tirlun ac Arfordir Hardd

4.3.1 Mae Llŷn yn ardal o dirlun arfordirol a gwledig amrywiol a hardd sy'n cynnig golygfeydd trawiadol. Mae'r dirwedd yn amrywio o lawr gwlad ffrwythlon i'r bryniau igneaidd sy'n britho'r ardal megis Garn Fadrun, Garn Boduan a Foel Gron. Mae'r llystyfiant yn creu argraff weledol gref drwy greu darlun lliwgar, sy'n amrywio yn ôl amser y flwyddyn.

4.3.2 O ben y bryniau hyn ceir golygfeydd gwych i bob cyfeiriad ac mae natur arfordirol yr ardal yn amlwg. Rhennir tirlun Llŷn yn glytwaith gan ffyrdd, nentydd ac afonydd megis afon Desach, afon Geirch, Y Daron a'r Soch. Mae terfynau caeau traddodiadol, cloddiau a waliau cerrig yn bennaf, hefyd yn nodwedd amlwg ar y tirlun ac yn adnodd hanesyddol pwysig.

4.3.3 Mae'r arfordir yn ffurfio rhan bwysig o edrychiad a chymeriad Pen Llŷn. Mae yn amrywiol iawn - mae rhannau o arfordir y gogledd yn greigiog ond mae traethau tywodlyd yma ac acw megis yn Nefyn, Towyn a Phorthor. Ceir traethau mwy eang ar yr arfordir deheuol a thwyni tywod yn ardal Abersoch. Mae'r nodweddion yn cynnwys clogwyni uchel, ogofau, staciau ac ynysoedd, penrhynau a thraethau tywodlyd a charegog gydag enwau

lleol diddorol.

4.3.4 Mae ôl preswyliaeth dyn ar y tirlun yn cyfrannu at gymeriad gweledol y tirlun. Mae'r rhannau mwyaf gwledig yn cael ei nodweddu gan dai a bythynnod bychan a ffermydd unigol - sydd yn ymdebygu i rannau o dde-orllewin Iwerddon. Oherwydd diffyg datblygiadau eraill mae ymdeimlad cryf o dirlun naturiol, heb ei ddifetha yn perthyn i Lŷn. Mae pentrefi bychan, wedi eu gwasgu i'r tirlun hefyd yn nodweddiadol o'r ardal. Oherwydd eu natur gryno a'r deunyddiau adeiladu traddodiadol maent gan amlaf yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun.

4.3.5 Oherwydd ei harddwch naturiol trawiadol mae Llŷn wedi gwneud argraff ar arlunwyr yn cynnwys rhai brodorol megis Elis Gwyn Jones, Emrys Parry a Rob Piercy a rhai a ddaeth i'r ardal am gyfnod i ymarfer eu crefft. Mae lluniau o olygfeydd trawiadol Llŷn yn amlwg iawn yng ngwaith arlunwyr ac mae myrdd o olygfeydd o fôr, machlud, tirlun amrywiol, arfordir, bythynnod a chymeriadau lleol bellach ar gael.

## 4.4 Y Môr a'i Donnau.

4.4.1 Does unlle ymhell o'r môr ar Benrhyn Llŷn ac mae'r môr wedi cael dylanwad sylweddol ar gymeriad yr ardal. Mae'r swnt, sydd rhwng Ynys Enlli a'r tir mawr, yn lle i'w barchu - gall fod yn dymhestlog a pherygl oherwydd bod sawl cerrynt yn cyfarfod yma.

4.4.2 Rhoddodd y môr gynhaliaeth i genedlaethau o bobol Llŷn a thyfodd nifer o bentrefi arfordirol yr ardal yn sgil y diwydiant pysgota. Datblygwyd porthladdoedd bychain mewn nifer o fannau ar arfordir Llŷn yn yr ail ganrif ar bymtheg. Byddai cynnyrch amaethyddol yn cael ei allforio trwy'r porthladdoedd a mewnforid nwyddau megis pupur, lliain, llestri, finegr ayb. Hefyd roedd glo yn cael ei fewnforio i nifer o borthladdoedd bach Llŷn ac mae olion iardiau glo i'w gweld mewn nifer o fannau hyd heddiw megis Porth Ysgaden, Porthor ac Aberdaron. Datblygwyd odynau calch ger rhai o'r porthladdoedd hyn ac mae olion i'w gweld mewn nifer o fannau megis Abersoch a Porth Ysgaden.

4.4.3 Yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd adeiladu llongau hwyliau i fod yn ddiwydiant pwysig ym Mhwllheli, Nefyn a Phorthdinllaen. Yn sgil y diwydiant hwn datblygodd traddodiad o fynd i'r môr yn yr ardal ac fe lwyddodd nifer o hogia'r ardal, yn enwedig Nefyn i fod yn gapteiniaid. Sefydlwyd Amgueddfa Forwrol yn Nefyn i gadw' creiriau'r cyfnod a chofnodi'r hanes.

4.4.4 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiant chwareli a chloddio mwynau datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganîs o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau hyn i'w gweld ar y traethau hyd heddiw.

4.4.5 Yn naturiol mae'r môr wedi yn chwarae rhan amlwg yn niwylliant yr ardal. Bu nifer o longddrylliadau ar hyd y glannau ac mae storïau am gasglu llwyth rhai llongau oddi ar y traethau a hyd yn oed denu llongau i drybini. Mae straeon am smyglo a môr ladron hefyd yn gysylltiedig â Llŷn. Mae disgrifiadau o'r môr yn amlwg yng ngwaith y beirdd hefyd a chredir hanesion morwyr, llongau, trychinebau ac ambell i dro trwstan.

4.4.6 Bellach môr yn adnodd economaidd gwerthfawr o ran cychod pleser, beiciau dŵr, pysgota ac yn y blaen ac mae'r traethau yn denu miloedd o bobol leol ac ymwelwyr yn yr haf.

## 4.5 Tawelwch a Llygredd Isel

4.5.1 Mae Penrhyn Llŷn, yn enwedig pen gorllewinol y penrhyn, yn un o'r ardaloedd prin hynny lle mae ceir tawelwch a thangnefedd. Rhyw "deimlad" neu argraff o le ydi peth fel hyn mae yn anodd ei adnabod a'i fesur yn glir. Er bod newidiadau dros amser a mwy o brysurdeb mae rhannu o Lŷn yn parhau'n wledig a thawel iawn eu natur. Mae'r bardd J.Glyn Davies wedi rhoi disgrifiad byw iawn o Lŷn sydd yn cyfeirio at yr ymdeimlad o dangnefedd yma:

Heulwen ar hyd y glennydd a haul hwyr, a'i liw
Ar y mynydd,
Felly Llŷn ar derfyn dydd,
Lle i enaid gael llonydd" - J.Glyn Davies

4.5.2 Nid un peth, ond nifer o wahanol elfennau, sy'n cyfrannu at greu'r tangnefedd yma. Y math o bethau sy'n cyfrannu hyn yw absenoldeb datblygiadau ar raddfa fawr (tai neu ddiwydiant), prinder ceir a thraffig, ychydig o sŵn i darfu ar dawelwch ac ychydig o olau i darfu ar dywyllwch y nos. Mae natur bellennig ac ymylol yr ardal eto wedi bod yn ffactor allweddol o ran creu a chynnal y rhinwedd hwn.

4.5.3 Yn ogystal â bod yn dawel mae'r lefelau llygredd yn isel yma yn Llŷn. Eto oherwydd natur bellennig yr ardal nid oes llawer o ddatblygiadau a diwydiannau sylweddol yma mae lefelau traffig yn isel heblaw am y prif gyfnodau gwyliau. Mae safon y pridd, aer, dŵr a dŵr y môr yn parhau'n uchel iawn yma.

## 4.6 Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd

4.6.1 Mae cyfoeth o fywyd gwyllt yn byw mewn gwahanol gynefinoedd ym Mhenrhyn Llŷn. Dros amser mae natur wledig ac amaethyddol yr ardal yn ogystal â natur lonydd a di-lygredd yr ardal wedi cyfrannau at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain.

4.6.2 Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin megis rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd yn brin yn y Deyrnas Unedig. Er wedi gwanychu llawer mae rhostiroedd yn parhau yn nodwedd

amlwg a phwysig yn Llŷn ac mae yma rostiroedd gwlyb, sych, isel ac arfordirol i'w cael yma. Maent yn gwneud cyfraniad nid yn unig fel cynefin a nodwedd ar y tirlun ond hefyd ar lefel hanesyddol, diwylliannol ac fel adnodd hamdden (mae llawer o rostiroedd yr ardal yn diroedd comin). Mae'r rhostiroedd yn cynnal amrywiaeth eang o borfa a phlanhigion yn ychwanegol i grug a'r eithin sydd mor lliwgar yn Awst a Medi.

4.6.3 Nodwedd arall bwysig yn llyn yw'r cynefinoedd arfordirol sy'n cynnwys clogwyni, llethrau, tir arfordirol, traethau a thwyni tywod. Mae'r clogwyni a llethrau yn cynnal amrywiaeth o blanhigion a blodau gwyllt sy'n araf droi yn borfeydd arfordirol a rhostir ac maent hefyd yn gartref i amrywiaeth o adar y môr, cacwn a rhai creaduriaid di-asgwrn cefn prin.

4.6.4 Oherwydd pwysigrwydd amryw o gynefinoedd a rhywogaethau morol i'w weld yn ardal Llŷn a'r Sarnau, er enghraifft y riffiau a'r aberoedd, mae'r ardal wedi cael ei ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau. Mae'r riffiau yn cefnogi amrywiaeth eang o gymunedau fflora a ffawna yn cynnwys amrywiaeth o goedwigoedd gwymon, sbyngau a chwistrellau

4.6.5 Mae'r morloi llwyd yn gyffredin i'r ardal yn ogystal â dyfrgwn, llamhidyddion harbwr a dolffiniaid trwynbwl a welir yn y dyfroedd ar yr arfordir deheuol. Hefyd mae lleoliad a nodweddion arbennig y bae yn gynefin addas i'r dolffin Risso.

4.6.6 Oherwydd ei thirlun gwledig a'r arfordir amrywiol mae Llŷn yn gynefin i amrywiaeth helaeth o adar tir ac adar morol, rhai ohonynt yn rhywogaethau prin. Ymysg yr adar prin mae'r fran goesgoch a ddefnyddir fel logo yr AHNE. Mae yma rywogaethau eraill o adar o bwysigrwydd Ewropeaidd hefyd, gan gynnwys Y Pâl, Gwylog , Mulfran neu Wil wal waliog a'r Aderyn Drycin Manaw.

## 4.7 Amgylchedd Hanesyddol

4.7.1 Mae pobol wedi byw yn Llŷn ers canrifoedd lawer ac maent wedi gadael eu marc ar y tirlun. Mae olion archeolegol, yn cynnwys safleoedd unigol, henebion a'r tirlun ehangach gyda'r patrwm caeau ac anheddau bychain. Maent yn cysylltu heddiw gyda'r gorffennol pell ac yn ein hatgoffa fod Llŷn yn hen, hen le a bod llawer cenhedlaeth wedi troedio tir yr ardal.

4.7.2 Y cyfnod Mesolithig (c.10,000 - 4,000 C.C) - yw'r cyfnod hanesyddol cynharaf y gwelir olion dynol yn yr ardal. Canfuwyd olion cerrig wedi eu naddu, fflintiau wedi eu naddu ac offer megis cyllyll a chrafwyr. O'r Oes Neolithig (c. 4,000 - 2,000 CC) - mae siambrau claddu a meini hirion a hefyd o bwysigrwydd sylweddol o'r cyfnod yma mae olion ffatri fwyelli ar Fynydd y Rhiw.

4.7.3 Yr olion mwyaf trawiadol o wareiddiad cynnar yn yr ardal yw'r ceyrydd oes yr Haearn sydd wedi ei lleoli ar ben nifer o fryniau yr ardal, megis Garn Boduan, Garn Fadrun a Phenarfynydd yn y Rhiw. Y gaer fwyaf yw Tre'r

Ceiri ar yr Eifl sydd tua 460m uwch lefel y môr. Roedd hon yn gaer amddiffynnol bwysig ac roedd yn bosibl gweld unrhyw fygythiad o bell. Mae'n rhyfeddod fod cymaint o'r gaer yn parhau yn sefyll - fe welir y prif fur amgylchynol yn glir yn ogystal ag olion tua 150 o gytiau crynion.

4.7.4 Mae crefydd ar hyd y cyfnodau wedi gadael ei ôl ar wlad Llŷn - o ran y tirlun, hanes, y gymdeithas a'r diwylliant. O ran olion hanesyddol mae nifer o gerrig ag arnynt ysgrifau o'r cyfnod Cristnogol Cynnar (y 5ed Ganrif) wedi eu darganfod, er enghraifft y cerrig gydag enwau offeiriad VERACIVS a SENACVS a ddarganfuwyd ger Capel Anelog, Uwchmynydd. Hefyd o'r cyfnod yma gwelwyd sefydlu eglwysi bach (llan) a ddatblygodd yn safleoedd eglwysig amlwg megis Clynnog Fawr, Llanaelhaearn ac Aberdaron. Enwyd nifer o'r safleoedd cynnar hyn ar ôl Seintiau Celtaidd megis Beuno (Clynnog, Pistyll a Charnguwch), Hywyn (Aberdaron) a Cwyfan (Edern a Thudweiliog).

4.7.5 O gyfnod diweddarach mae llawer o olion diwydiant yr oes a fu yn Llŷn, y rhai amlycaf yr ardal yw olion y chwareli ithfaen a'r cloddio mwynau. Hefyd gellir gweld olion incleins, llwyfannau a dociau ar gyfer allforio yn eglur hyd heddiw. Yn y cyfnod hwn, cyn cyfleusterau teithio effeithiol roedd cymunedau yn ffurfio ger mannau gwaith a datblygwyd pentrefi gerllaw rhai o'r chwareli megis Trefor, Llithfaen a Nant Gwrtheyrn. Y chwareli ithfaen a ddarparodd y cerrig ar gyfer adeiladu llawer iawn o adeiladau yn Llŷn yn y cyfnod yma ac mae'r rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol a rhestredig yr ardal wedi eu hadeiladu o garreg ithfaen lleol.

4.7.6 Mae rhai strwythurau hanesyddol eraill o ddiddordeb eraill i'w gweld yn Llŷn megis olion dwy hen felin wynt a strwythurau yn ymwneud â thrafnidiaeth - megis pontydd, camfeydd cerrig a cherrig milltir.

4.7.7 Er nad oes olion o gyfnod y Rhufeiniaid yn Llŷn (hyd y gwyddir) mae 'na lawer o olion archeolegol eraill dros gyfnod maith o amser wedi eu darganfod yma. Mae Llŷn yn unigryw yn hyn o beth ac adlewyrchir hyn yn y ffaith fod yr ardal wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru a baratowyd gan Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS (Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd) 1998. Mae'r gofrestr yn nodi: "mae yma gyfoeth ac amrywiaeth mawr a digyffelyb, ran amlaf o nodweddion archeolegol a hanesyddol ar raddfa lai, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cyfanrwydd cydlynol ac intergreiddiedig, gan arddangos parhad ac undod tiriogaethol Llŷn ers efallai adegau cynhanesyddol."

## 4.8 Adeiladau Hanesyddol

4.8.1 Bythynnod oedd tai'r bobl gyffredin yn Llŷn - a gan amlaf codwyd y rhain mewn dull syml ac mewn byr o dro. Mae'r rhai sydd wedi ei goroesi wedi eu hail doi gyda llechi ac mae'r enghreifftiau gorau wedi eu rhestru gan Cadw. Yn ôl traddodiad mae llawer o'r bythynnod bychan sydd yn rhan o dirlun Llŷn wedi eu seilio ar "dai unnos". Adeiladwyd y bythynnod yma gyda'r deunyddiau oedd agosaf i law, sef pridd, cerrig a mwd.

4.8.2 Oherwydd bod Llŷn yn ardal amaethyddol lewyrchus mae'n nifer helaeth o dai fferm ag adeiladau amaethyddol diddorol yma. Mae rhai tai fferm bychan tra mae eraill yn sylweddol gyda chysylltiad â theuluoedd o uchelwyr amlwg megis Bodwrdda, Meillionnydd a Chastellmarch. Datblygwyd llawer o dai fferm ac adeiladau gan y Stadau megis Glynllifon, Nanhoron a'r Faenol.

4.8.3 Gwelir llawer o adeiladau crefyddol hanesyddol yn Llŷn gan fod crefydd wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad a diwylliant yr ardal o'r cyfnod Cristnogol ymlaen. Mae olion Mynachdy o'r 6ed ganrif i'w weld ar Ynys Enlli tra mae eglwysi hynafol ar lwybr y pererinion mewn mannau fel Clynnog Fawr, Llanaelhaearn, Llangwnnadl ac Aberdaron.

4.8.4 Bu codi capeli ar raddfa fawr yn Llŷn yn sgil datblygiad Anghydffurfiaeth o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen. Adeiladwyd capel cyntaf yr annibynwyr, sef Capel Newydd Nanhoron yn 1769 a chodwyd llu o gapeli gan wahanol enwadau eraill hyd a lled yr ardal wedi hynny.

## 4.9 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

4.9.1 Mae Llŷn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg sydd yn un o ieithoedd hynaf Ewrop. Yma mae'r Gymraeg yn iaith fyw ac yn cael ei defnyddio yn ddyddiol yn y cartref, capeli ac eglwysi, yr ysgol, y siop, y gweithle ac ar y stryd. Hefyd mae'r iaith yn weledol ymhobman, ar arwyddion, posteri a'r papur bro lleol: "Y Llanw Llŷn". Enwau Cymraeg sydd ar gaeau amaethyddol a lleoliadau yn Llŷn a'r rhan fwyaf o ffermydd a thai hefyd.

4.9.2 Mae'r Gymraeg hefyd yn iaith lenyddiaeth a barddoniaeth ac yn rhan o ddiwylliant arbennig yr ardal. Elfennau eraill pwysig o'r diwylliant lleol hanesion, chwedlau, ofergoelion, dywediadau, cymeriadau ac enwau lleoedd.

4.9.3 Mae crefydd yn parhau i chwarae rhan bwysig yn niwylliant pobol Llŷn. Yn yr oesau a fu roedd y seintiau yn amlwg iawn ac roedd pererindodau cyson i Ynys Enlli. Cysegrwyd nifer helaeth o eglwysi lleol i'r seintiau cynnar Yn ddiweddarach sefydlwyd capeli gan wahanol enwadau ledled Llŷn ond bellach mae cynulleidfaoedd wedi edwino llawer. Ynghlwm a'r capeli y daeth traddodiad yr Eisteddfod sydd yn parhau i ffynnu hyd heddiw.

4.9.4 Mae cymeriadau lleol hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant Llŷn. Ymysg y cymeriadau hanesyddol enwog roedd Dic Aberdaron – oedd yn medru siarad 15 iaith yn ôl y sôn a hen feddyges Bryn Caniad, Uwchmynydd oedd yn gwella pob math o anhwylderau gyda ffisig ac eli wedi ei wneud adref.

## 4.10 Pobol a Chymdeithas

4.10.1 Yma yn Llŷn ceir cymunedau clòs sydd wedi datblygu dros gyfnod hir o amser. Gwelwyd rhai newidiadau yn y gymdeithas dros y blynyddoedd -

mae pobol o fannau eraill wedi symud i mewn i gael gwaith, i ymddeol neu oherwydd newid ffordd o fyw.

4.10.2 Hefyd gwelwyd pobol yn symud allan o'r ardal - yn bennaf ar gyfer cael addysg neu i chwilio am waith. Ar y cyfan mae'r gymdeithas wedi medru ymdopi â'r datblygiadau hyn heb newid sylweddol yn ei chymeriad a'i strwythur ac felly heb effaith gormodol ar y diwylliant lleol a'r defnydd o'r iaith. Mae polisi Addysg drwy'r Gymraeg gan yr Awdurdodau Lleol wedi bod yn bwysig iawn yn hyn o beth.

4.10.3 Y bobol leol a'r cymunedau y maent yn eu ffurfio sydd wedi cynnal yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig arbennig. Mae arferion, hanesion a gwybodaeth wedi eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.

4.10.4 Oherwydd bod y gymuned yn cyfrannu at gymeriad yr ardal mae'n bwysig anelu tuag at gynnal a gwarchod y gymdeithas. Felly mae angen rhoi sylw i anghenion pobol o ran tai, gwasanaethau a chyfleusterau, hamdden, gwaith a swyddi.

## 4.11 Economi a Sgiliau

4.11.1 Yn draddodiadol mae pwyslais wedi bod yn Llŷn ar waith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd. Mae amaethu a physgota wedi datblygu ers amseroedd cynnar iawn ac maent yn parhau yn bwysig hyd heddiw gan gynnal teuluoedd, darparu cynnyrch lleol a chynnal diwydiannau eraill. Yn ogystal mae diwylliant arbennig yn gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn – yn llawn arferion, hanesion a chymeriadau lliwgar.

4.11.2 Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y diwydiant chwareli a chloddio mwyn yn ddiwydiannau pwysig. Roedd y gweithfeydd hyn yn darparu gwaith ar gyfer nifer helaeth o bobol a thyfodd nifer o bentrefi chwarelyddol megis Trefor, Pistyll a Llithfaen. Gwelir olion y diwydiannau ar dirlun yr ardal hyd heddiw - olion cloddio, hen adeiladau a chyfarpar a thomenni sbwriel. Mae dwy chwarel gerrig yn parhau i weithio yn Llŷn sef Nanhoron a Threfor gan ddarparu cerrig ar gyfer diwydiannau lleol.

4.11.3 Mae llawer o fusnesau bychan eraill yn bwysig i economi Llŷn. Mae traddodiad o fod yn hunan gyflogedig yn Llŷn ac ers talwm roedd cyfran uchel o seiri, gofaint a gweision fferm yma ond erbyn heddiw adeiladwyr, trydanwyr, seiri coed ayb sydd yn niferus. Yn ogystal â darparu gwaith mae nifer o fusnesau gwledig hefyd yn cynnal sgiliau yn fodd i gynnal a chadw nodweddion hanesyddol yn yr ardal megis cloddiau, waliau cerrig, adeiladau hanesyddol ayb.

4.11.4 I raddau helaeth mae'r diwydiant ymwelwyr yn Llŷn wedi ei seilio ar rinweddau arbennig yr ardal - yr harddwch, y traethau, amgylchedd glân a thawelwch. Mae'r diwydiant yn darparu swyddi ac yn helpu i gynnal busnesau lleol ac yn cyfrannu yn sylweddol i'r economi ond mae rhai effeithiau negyddol ar y rhinweddau hefyd. Rhaid anelu at reoli'r diwydiant

er dod a budd i’r ardal ond i sicrhau na wneir hynny ar draul y nodweddion sy’n creu cymeriad arbennig a swyn yr ardal.

## 4.12 Lle i Grwydro

4.12.1 Mae llawer o gyfleon i grwydro a mwynhau harddwch naturiol a nodweddion hanesyddol yn yr ardal. Roedd llwybrau cyhoeddus yn ddull pwysig o gysylltu yn y gorffennol ac roedd defnydd mawr ohonynt mewn ardal wledig fel Llŷn. Mae’r Cyngor Sir a ‘r Cynghorau Cymuned yn cynnal a gwarchod y rhwydwaith o lwybrau oherwydd eu pwysigrwydd o ran cerdded a mwynhau.

4.12.2 Yn ogystal â’r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus mae myrdd o ffyrdd bychain gweledig sydd yn gwau eu ffordd ar draws y penrhyn gan gysylltu ardaloedd a'i gilydd. Ar y cyfan mae’r ffyrdd yn weddol ddistaw ac mae cyfle i gerdded, beicio a marchogaeth ar eu hyd hefyd.

4.12.3 Mae’r llwybrau ar hyd rhannau o arfordir Llŷn, yn hen lwybrau gan y Pererinion oedd yn cerdded ar hyd y glannau tuag at Ynys Enlli gan aros ger eglwysi fel Clynnog a Llangwnnadl. Mae datblygu Llwybr Arfordir Cenedlaethol wedi bod o fudd mawr. Gydag arian ac adnoddau mae rhannau o’r llwybr gwreiddiol wedi ei wella ac mae rhannau newydd sy’n rhedeg ar ymyl yr arfordir wedi eu hychwanegu.

4.12.4 Mae 'na lecynnau sylweddol o dir comin yn Llŷn megis Mynydd Tir y Cwmwd, Y Foel Gron a Mynydd Rhiw - gan roi cyfle gwych i grwydro yn fwy anffurfiol a gweld a mwynhau bywyd gwyllt, gwahanol blanhigion a golygfeydd trawiadol. Nid yw’r tiroedd comin wedi eu gwella yn amaethyddol ac mae llawer yn rhostiroedd heb eu gwella - cynefin sydd bellach yn brin yn genedlaethol.

4.12.5 Un o brif atyniadau Llŷn yw'r traethau bendigedig sydd yma. Mae’r rhain yn amrywio llawer - ceir traethau o ro a cherrig a thraethau eraill o dywod meddal a llyfn mewn mannau fel Nefyn, Porthdinllaen, Porthor. Mae rhai traethau yn adnabyddus ac amlwg - ac felly yn medru bod yn brysur yn yr haf ond mae yma draethau mwy cuddiedig a thawel hefyd - llecynnau perffaith am dipyn o heddwch.